COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 10fed o FAI 2021 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Tyssul Evans,Linda Williams,Aled Williams,Ian Evans,Caroline Williams,Geraint Rosser,Alan Lewis a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Meic Bowen,Tracey James a Geoff Hewitt.

Materion Personol

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd. Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn ag effaith y COVID-19 ar sefyllfa'r wlad ar hyn o bryd a'r ffordd y mae'n ymyrrid ar weithgaredd y Cyngor

2591 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 22/06/20 fel rhai cywir.

2592 CADEIRYDD 2021-2022
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Linda Williams yn Gadeirydd.

2593 IS-GADEIRYDD 2021-2022
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Ian Evans yn Is-gadeirydd

2594 LWFANS Y CADEIRYDD
Penderfynwyd bod y Cadeirydd i dderbyn Lwfans o £300 tuag at dreuliau'r swydd.

2595 Diolchiadau
Cyfeiriodd y Cadeirydd presennol ei bod wedi cael blwyddyn wahanol o dan gyfyngderau COVID-19 a diolchodd i'r Is-gadeirydd a'r Cyngor yn gyffredinol am eu cydweithrediad parod. Diolchodd hefyd i'r Clerc,Glyndwr Prideaux am ei wasanaeth trylwyr a chydwybodol yn ystod y flwyddyn arbennig hon.

Diolchwyd iddi hi fel Cadeirydd am ei arweiniad doeth ac am lywio'r amryw Gyfarfodydd mor drefnus yn ystod flwyddyn ei lywyddiaeth.

2596 Ethol Aelodau'r Is-bwyllgorau

Cyllid a Chynllunio
Cadeirydd y Cyng.Linda Williams,Cyng.Ian Evans (Is-gadeirydd),Cyng.Margaret Rees (Cyn Cadeirydd), Cyng. Geoff Hewitt,Cyng. Alan Lewis,Cyng. Tyssul Evans,

Iaith:
Cadeirydd y Cyng.Linda Willians,Cyng. Aled Williams,Cyng Heddwyn Jones, Cyng. Ian Evans,Cyng.Caroline Williams, Cyng.Tracey James.

Pwyllgor Cyswllt Cwar Torcoed:
Cyng. Margaret Rees,Cyng. Caroline Williams,Cyng. Alan Lewis,Cyng. Tyssul Evans.

Pwyllgor y Wefan:
Cyng. Linda Williams,Cyng.Alan Lewis

Pwyllgor y Frigâd Dan (Pontiets)
Cyng,Geraint Rosser,Cyng.Meic Bowen,Cyng.Heddwyn Jones.

2597 Pŵer Cyflawn

Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc awdurdodwyd Pŵer Cyflawn i'r Is-bwyllgor Cyllid a Chynllunio i benderfynu materion o bwys a brys yn ystod cyfnod y COVID-19.

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 19.20 y.n.

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……